

Cynefinoedd Deinosauriaid

Darganfyddwch fyd Dippy a dychmygwch ddiwrnod ym mywyd deinosor.

Canlyniadau dysgu

Bydd plant yn:

- dysgu bod rhai mathau o anifeiliaid a phlanhigion oedd yn byw ar yr un pryd â'r *Diplodocus* mae Dippy yn seiliedig arno yn byw hyd heddiw
- gallu dosbarthu anifeiliaid yn ôl meini prawf gwahanol yn seiliedig ar yr wybodaeth a'r ymchwil bresennol o ffynonellau gwybodaeth eilaidd
- defnyddio dychymyg a gwybodaeth i greu stori
- meddu ar yr hyder a'r sgiliau i rannu'r stori
- gweithio gydag eraill i berfformio stori

Adnoddau angenrheidiol




Yn y pecyn Amgueddfa Hanes Natur mae:

- delweddau o anifeiliaid a phlanhigion oedd yn byw ar yr un pryd â Dippy




Bydd yr ysgol yn darparu:

- siswrn, pensiliau lliwio neu beniau
- blwch, ffrâm neu ddull arall o leoli byd bychan arall


Cynefinoedd Deinosoriaid



Coeden Rhedyn



Conwydd





Dippy

Cynefinoedd Deinosoriaid


Hoplosuchus kayi




Camarasaurus





Stegosaurus




Allosaurus



Docodon



Glyptops



Mesadactylus



Nodiadau athrawon

Mae palaeontolegwyr (gwyddonwyr sy'n astudio ffosilau a deinosoriaid) yn dadansoddi tystiolaeth ynghylch llyfyrdd roedd deinosoriaid yn byw a pha anifeiliaid a phlanhigion eraill oedd yn byw ar yr un pryd. Maen nhw'n gwneud eu gwaith ditectif drwy edrych ar ffosilau sy'n cael eu darganfod yn agos at ei gilydd ac yn yr un math o graig.

Mae ffosilau eraill y daethpwyd o hyd iddynt ar bwys Dippy yn ein helpu i greu darlun o'r byd yr oedd yn byw ynddo – y planhigion y byddai wedi eu bwyta, yr anifeiliaid llai a oedd yn byw ar y ddaear o'i gwmpas, pryfed a fyddai wedi hedfan o gwmpas a deinosoriaid eraill a allai fod wedi ceisio'i fwyta. Mae artistiaid yn gweithio gyda phalaeontolegwyr i ddod â bywyd i'r esgryn ffosiledig drwy luniadau manwl.

Dangoswch ailgread palaeoartist o fydd Dippy a'r anifeiliaid a'r planhigion a oedd yn byw gyda Dippy ar y bwrdd gwyn. Trafodwch beth sy'n digwydd, a ydyn nhw'n adnabod unrhyw un o'r anifeiliaid. Cyfrwch elfennau gwahanol y ddelwedd (e.e. nifer y deinosoriaid neu nifer y coesau).

Esboniwch fod y rhain yn ddelweddau o'r planhigion a'r anifeiliaid a oedd yn byw gyda Dippy. Mae rhai o'r un mathau o blanhigion yn dal yn byw hyd heddiw. Ochr yn ochr â'r deinosoriaid mae anifeiliaid cyfarwydd fel llyffantod a chrwbanod sy'n debyg iawn i'r rhai sy'n fyw heddiw.

Edrychwch ar lyfrau ac ar-lein i ddarganfod ble a phryd roedd Dippy yn byw ac am y mathau eraill o anifeiliaid oedd yn byw ar yr un pryd. Gallech eu didoli a'u dosbarthu yn ôl eu deiet, oedden nhw'n fyw neu wedi diflannu erbyn hynny, neu'n byw ar dir neu mewn dŵr.

Gofynnwch i'r plant feddwl am ddiwrnod Dippy o'r eiliad y byddai'n deffro i pan fyddai'n mynd i gysgu. Pwy fyddai'n ei gyfarfod, a beth allai ddigwydd?

Gofynnwch iddyn nhw ddychmygu mai chi yw Dippy gan adrodd stori ei ddiwrnod. Beth fyddai deinosor yn ei wneud?

Defnyddiwch hwn i ysgogi ysgrifennu a darllen ar goedd, neu i gynllunio ac adrodd y stori drwy ddrama neu drwy ddefnyddio pypedau. Dylech gynnwys ystod o wahanol synwriadau ac arsylwadau am y byd yn ogystal â gweithredoedd.

- Rwy'n bwyta...
- Rwy'n arogl...
- Rwy'n clywed...
- Rwy'n gweld...
- O dan fy nhraed mae
- Uwch fy mhen mae
- O'm hamgylch mae

Torrwch a lliwiwch y darluniau o anifeiliaid a phlanhigion a dyluniwch fyd bach i ddangos un o'r digwyddiadau yn eu stori, neu i'w ddefnyddio i adrodd y stori.

- Gallech greu rhestr ar ffurf cerdd am fydd Dippy.
- Gallech wneud theatr bypedau o flwch cardfwrdd a chreu diorama Jwrasig fel lleoliad. Defnyddiwch y darluniau sydd wedi'u torri allan o anifeiliaid i wneud pypedau papur ac adrodd y stori drwy ddrama.
- Gallech ychwanegu ysgogiadau synhwyrdd fel dail, brigau, tywod a graean.
- Gallech ddefnyddio modelau neu deganau os oes rhai gennych chi neu'r plant.
- Gallech feddwl am gadwyni bywyd sy'n bodoli rhwng y planhigion a'r anifeiliaid oedd yn byw yr un pryd â Dippy.

Rhannwch eich cynefinoedd deinosor gyda ni trwy e-bostio lluniau i DippyOnTour@nhm.ac.uk gyda'r pwnc **Lluniau/Pictures**.

Cysylltiadau cwricwlwm Cymru (Cyfnod Sylfaen)

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Fi fy hun a phethau byw eraill

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- arsylwi gwahaniaethau rhwng anifeiliaid a phlanhigion, rhwng gwahanol anifeiliaid a rhwng gwahanol blanhigion er mwyn eu grwpio
- dysgu am y synhwyrdd y mae pobl ac anifeiliaid eraill yn meddu arnynt ac yn eu defnyddio i'w galluogi i fod yn ymwybodol o'r byd sydd o'u cwmpas
- adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr amgylchedd a geir yn yr awyr agored





Cysylltiadau cwricwlwm Lloegr (Cyfnod Allweddol 1)

Gwyddoniaeth

Pethau byw a'u cynefinoedd

Dylid addysgu'r disgyblion i:

- archwilio a chymharu'r gwahaniaethau rhwng pethau sy'n byw, marw, a phethau na fu erioed yn fyw
- nodi bod y rhan fwyaf o bethau byw yn byw mewn cynefinoedd y maent yn addas ar eu cyfer a disgrifio sut y mae gwahanol gynefinoedd yn darparu ar gyfer anghenion sylfaenol gwahanol fathau o anifeiliaid a phlanhigion, a sut y maent yn dibynnu ar ei gilydd
- adnabod ac enwi amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid yn eu cynefinoedd, gan gynnwys microgynefinoedd
- disgrifio sut mae anifeiliaid yn cael eu bwyd o blanhigion ac anifeiliaid eraill, gan ddefnyddio'r syniad o gadwyn fwyd syml, a nodi ac enwi gwahanol ffynonellau bwyd

Cysylltiadau cwricwlwm Gogledd Iwerddon (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1)

Y byd o'n cwmpas

Rhyngddibyniaeth

Dylid galluogi'r disgyblion i archwilio:

- sut mae planhigion ac anifeiliaid yn dibynnu ar ei gilydd yn y byd naturiol
- cyd-ddibyniaeth pobl a'r amgylchedd
- effaith pobl ar yr amgylchedd naturiol dros amser
- cyd-ddibyniaeth pobl, planhigion, anifeiliaid a lle

Lle

Dylid galluogi'r disgyblion i archwilio:

- sut mae lle yn dylanwadu ar fywyd planhigion ac anifeiliaid
- ffyrdd y mae pethau byw yn dibynnu ar eu hamgylchedd ac yn addasu iddo
- nodweddion y byd uniongyrchol a chymariaethau rhwng lleoedd
- newid dros amser mewn lleoedd lleol

Newid dros amser

Dylid galluogi'r disgyblion i archwilio:

- ffyrdd y mae newid yn digwydd yn y byd naturiol
- sut mae pobl a lleoedd wedi newid dros amser
- newid cadarnhaol a sut mae gennym gyfrifoldeb i wneud cyfraniad gweithredol

Cysylltiadau cwricwlwm yr Alban (Cynnar a Chyntaf)

Gwyddorau: Profiadau a chanlyniadau

Y Ddaear: Bioamrywiaeth a rhyngddibyniaeth

Gallaf wahaniaethu rhwng pethau byw a phethau nad ydynt yn fyw. Gallaf drefnu pethau byw yn grwpiau ac egluro fy mhenderfyniadau. **SCN 1-01a**

Gallaf archwilio enghreifftiau o gadwyni bwyd a dangos gwerthfawrogiad o sut mae anifeiliaid a phlanhigion yn dibynnu ar ei gilydd am fwyd. **SCN 1-02a**

